

Defnyddio e-gyfathrebu mewn ysgolion

CYNNWYS

	Tudalen
Defnyddio e-gyfathrebu mewn ysgolion	1
Cefndir.....	1
Addysgu e-ddiogelwch.....	1
Defnyddio e-gyfathrebu i wella addysgu a dysgu.....	1
Defnyddio'r e-bost	2
Dogfennau Defnyddiol	4

Defnyddio e-gyfathrebu yn yr ysgol

Cefndir

Mae'r rhyngwrwd yn sianel gyfathrebu agored, heb ei rheoli. Mae'r We Fyd-eang, e-bost, blogiau a rhwydweithio cymdeithasol i gyd yn trosglwyddo gwybodaeth gan ddefnyddio seilwaith cyfathrebu'r rhyngwrwd yn rhyngwladol am gost isel. Gall unrhyw un anfon negeseuon, trafod syniadau a chyhoeddi deunyddiau heb fawr o gyfyngiadau. Mae nodweddion yma'r rhyngwrwd yn ei gwneud yn adnodd amhrisiadwy a ddefnyddir gan filiynau o bobl bob dydd.

Gall ysgolion helpu i ddiogelu eu hunain drwy ei gwneud hi'n glir i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr bod defnyddio offer yr ysgol am resymau amhriodol "heb ei awdurdodi".

Mae e-bost, negeseuon testun a negeseua gwib (IM) i gyd yn darparu sianeli ychwanegol o gyfathrebu rhwng staff a disgyblion a gall ymddygiad amhriodol ddigwydd, neu gall cyfathrebu gael ei gamddehongli. Rhaid i staff sylweddoli bod pŵer gan y dechnoleg i adnabod y sawl sydd wedi anfon negeseuon amhriodol. Rhaid i'r cyswllt rhwng disgyblion a staff fod drwy sianeli cyfathrebu cymeradwy.

Addysgu e-ddiogelwch

Mae datblygu arferion effeithiol ar gyfer defnyddio'r rhyngwrwd a'r e-bost ar gyfer addysgu a dysgu yn hollbwysig. Gall llyfrgellwyr ac athrawon helpu disgyblion i ddysgu sut i ganfod ystyr o'r llwyth o wybodaeth a ddarperir gan y rhyngwrwd.

Cyfrifoldeb y staff ysgol i gyd yw sicrhau bod disgyblion yn defnyddio technoleg mewn ffordd gyfrifol a'u bod yn rhoi sylw i faterion diogelwch fel y bo'n briodol.

Defnyddio e-gyfathrebu i wella addysgu a dysgu

Cyfathrebu electronig yw'r dull cyfathrebu a ffefrir yn y rhan fwyaf o ysgolion erbyn hyn, boed hynny'n negeseuon testun, e-bost, negeseua gwib (IM) neu ddulliau eraill. Gall e-gyfathrebu gynnig manteision addysgol sylweddol a phrosiectau diddorol rhwng ysgolion mewn pentrefi cyfagos a gwahanol gyfandiroedd.

Mae angen ystyried goblygiadau defnyddio e-gyfathrebu i'r ysgol ac i ddisgyblion a rhaid rhoi mesurau diogelwch priodol yn eu lle. Gall cyfathrebu heb ei reoleiddio ddarparu llwybrau i ddisgyblion sy'n osgoi'r ffiniau ysgol traddodiadol.

Mae llawer o e-gyfathrebu o natur gymdeithasol yn unig. Dylai ysgolion ystyried a yw defnyddio negeseuon cymdeithasol yn brofiad defnyddiol o offer cyfathrebu neu a yw hyn yn flaenoriaeth isel? Gall ysgolion benderfynu y dylai mynediad i e-gyfathrebu cymdeithasol fod ar gael y tu allan i oriau gwersi yn unig.

Defnyddio'r e-bost

Mewn ysgol ar gyfer yr 21ain gantref, mae'r e-bost yn ddull cyfathrebu disgwylidiedig rhwng staff, rheolwyr a'r AALI a chydweithwyr rhanbarthol. Felly disgwylir i staff wirio eu cyfrifon e-bost yn gyson a rheoli eu cyfathrebiadau mewn ffordd drefnus a phroffesiynol.

Mae e-byst sy'n cael eu hanfon neu eu derbyn ar y system e-bost yn ffurfio rhan o gofnodion swyddogol yr ysgol; nid ydynt yn eiddo preifat. Nid yw'r ysgol yn cydnabod unrhyw hawl gweithwyr i osod cyfyngiadau ar ddatgelu e-byst o fewn yr ysgol neu'r AALI. Gall e-byst gael eu datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel rhan o achos cyfreithiol (e.e. tribiwnlysoedd), ac fel rhan o achos disgyblu. Mae defnyddwyr yn gyfrifol am yr holl weithredoedd sy'n ymwneud â'u cyfrif e-bost neu ddefnyddiwr ac felly dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw unrhyw un arall yn gallu cyrchu eu cyfrif.

Moeseg cyfathrebu electronig

Mae cyfathrebu electronig yn caniatáu i ni anfon negeseuon yn gyflym iawn. Weithiau gall cyflymdra a defnydd rhwydd arwain at gamgymeriadau diofal. Mae'n arfer da i wneud rhai gwiriadau syml cyn clirio ar y botwm 'Anfon'.

1. Gwiriwch ddwywaith enw'r derbynnydd i sicrhau eich bod yn anfon y neges i'r person cywir.
2. Os ydych yn anfon atodiad, gwiriwch ddwywaith bod y ffeil gywir wedi cael ei hatodi. Fel rheol ni ddylai atodiadau sy'n fwy na 5MB gael eu hanfon drwy'r e-bost.
3. Prawf-ddarllenwch eich neges i wirio ei bod yn darllen yn gywir ac nid oes modd camddechongli'r cynnwys ac achosi tramgwydd.

Wrth ddefnyddio e-gyfathrebu, dylai pob defnyddiwr:

- Wneud yn siŵr nad yw cyfathrebiadau yn niweidio enw da'r ysgol neu'r AALI, dwyn anfri arni, dod ag atebolrwydd i'r ysgol, neu'n cael effaith andwyol ar ei delwedd.
- Peidio â cheisio cyrchu cyfrifon defnyddwyr eraill neu ddeunyddiau cysylltiedig sydd wedi'u storio.
- Peidio â defnyddio'r systemau cyfathrebu i greu, cadw neu ddsbarthu negeseuon, delweddau, deunyddiau neu feddalwedd aflonyddgar neu sarhaus sy'n cynnwys sylwadau sarhaus neu ddifriol ynghylch ethnigrwydd neu genedligrwydd, rhyw, anabledau, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, golwg, credoau ac arferion crefyddol, credoau gwleidyddol neu gefndir cymdeithasol. Dylai gweithwyr sy'n cael negeseuon gyda'r cynnwys hwn gan weithwyr eraill yr ysgol adrodd am y mater i'w rheolwr llinell.
- Peidio ag anfon negeseuon a allai yn rhesymol gael eu hystyried gan dderbynwyr yn negeseuon bwlio, aflonyddu, difriol, maleisus, gwahaniaethol,

difenwol, ac enllibus neu sy'n cynnwys deunyddiau anghyfreithlon neu sarhaus, neu iaith fras.

- Peidio â lanlwytho, lawrlwytho, defnyddio, cadw, dosbarthu neu ledaenu unrhyw ddelweddau, testun, deunyddiau neu feddalwedd y gallai fod yn rhesymol ystyried eu bod yn anweddus, yn anllad, yn bornograffig neu'n anghyfreithlon.
- Peidio â chyflawni unrhyw weithgaredd sy'n debygol o
 - Lygru neu ddinistrio data defnyddwyr eraill neu amharu ar waith defnyddwyr eraill.
 - Dylai systemau cyfathrebu gael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig â gwaith yn unig.
 - Torri darpariaeth hawlfraint neu drwydded ynghylch rhaglenni a data, gan gynnwys hawliau eiddo deallusol
- Peidio ag anfon llythyrau cadwyn, sbam neu jôcs o gyfrif ysgol.
- Peidio byth â thrafod materion dadleuol, emosiynol neu dra chyfrinachol.

Dylai defnyddwyr sy'n cael negeseuon amhriodol gan unigolion yn yr ysgol neu'r tu allan i'r ysgol drafod y mater yn y lle cyntaf â'u pennaeth blwyddyn neu reolwr llinell.

Wrth ddefnyddio e-gyfathrebu, ni ddylai staff:

- Ddefnyddio eu cyfrif cartref neu bersonol i gyfathrebu â disgyblion, rhieni neu unrhyw fusnes ysgol swyddogol. Os yw gwaith yn cael ei dderbyn trwy'r e-bost rhaid i chi ddefnyddio eich cyfrif e-bost wedi'i gymeradwyo'n swyddogol gan yr ysgol a chadw unrhyw sylwadau o fewn materion proffesiynol.
- Trosglwyddo unrhyw ddata sensitif drwy ddulliau electronig heb ystyried y Polisi Diogelwch Data yn gyntaf.

Wrth ddefnyddio e-gyfathrebu, ni ddylai staff a rhieni:

- Gynnal unrhyw drafodaethau sy'n ymwneud â disgyblion eraill.
- Trafod gwybodaeth bersonol am ddisgyblion eraill.
- Trafod manylion mater sensitif sy'n ymwneud â myfyriwr oedd heb ei gychwyn gan y rhiant neu oedd heb ei drafod o'r blaen â'r rhiant.
- Cael trafodaeth sy'n ymwneud ag aelod arall o staff.

Canllawiau i rieni sydd am drafod materion â'r ysgol drwy ddefnyddio e-gyfathrebu:

- Dim ond negeseuon nad ydynt yn hanfodol bwysig ddylai gael eu hanfon drwy'r cyfrwng hwn. Mae'n rhaid i rieni gofio nad yw athrawon yn gweithio yn y swyddfa yn unig a'u bod yn treulio'r rhan fwyaf o'u diwrnod gwaith gyda phlant ac yna mewn cyfarfodydd, felly nid ydynt yn gallu edrych ac ymateb i e-byst yn gyson. Er enghraifft, peidiwch â defnyddio'r e-bost i roi gwybod i athrawon nad yw'ch plentyn i fynd adref ar y bus. Efallai na fydd amser gan athrawon i ddarllen eich neges mewn pryd. Yn lle hynny defnyddiwch y ffôn er mwyn sicrhau bod eich neges yn cael ei derbyn a'i deall yn glir.
- Ni ddisgwylir i staff weithredu ar e-byst ar adegau eraill heblaw oriau gwaith arferol fel y'u diffinnir yn y Canllawiau Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol.
- Y ffordd orau o ddelio ag absenoldeb eich plentyn o'r ysgol, cynnydd academaidd, disgwyliaid dysgu neu broblemau ymddygiad yw trwy sgwrs ffôn neu drwy drefnu cyfarfod ag athrawon eich plentyn. Nid yw neges e-bost ar y materion hyn yn briodol.
- Cofiwch nad yw'r e-bost yn gyfrinachol o reidrwydd. Dylai gwybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys pryderon meddygol neu iechyd, gael ei thrafod dros y ffôn neu drwy gysylltiad personol.
- Byddai'n ddefnyddiol i ddweud pwy ydych a/neu nodi enw eich plentyn yn llinell pwnc eich neges e-bost.
- Cadwch bob cysylltiad yn broffesiynol. Mae jôcs, straeon doniol neu arbennig, llythyrau cadwyn neu hysbysebion masnachol yn amhriodol a gallent leihau amser addysgu gwerthfawr.
- Ni ddylai rhieni ddefnyddio cyfrifon e-bost preifat athrawon i gyfathrebu am faterion ysgol.

Dogfennau Defnyddiol

- ✓ Canllawiau e-Ddiogelwch Ceredigion
- ✓ Diogelwch Data a Chyfrifon
 - Polisi Trin Data Ysgolion
 - Polisi Cyfrineiriau Ysgolion
- ✓ Polisiâu Defnydd Derbyniol
 - PDD Staff
 - PDD Myfyrwyr
 - PDD Rhieni
- ✓ Seilwaith a Thechnoleg
 - Polisi Hidlo'r Rhyngwyd